

## Cofnodion Cyfarfod 7fed Fedi 2021

**Presennol :-** Y Cadeirydd **Emma Chappell** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill, Gareth Griffiths, Ynyr Parri a Richard Llwyd Jones

Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

### **Ymddiheuriadau.**

Idris Thomas, Ceri Jones, Dawn Parry, Sasha Williams a Lowri Hughes

### **Croeso a Gweddi**

Rhodddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd a gair o weddi gan Richard LL. Jones.

### **Datgan buddiant**

Dim

**Cyfethol a Chroeso** - Rhodddwyd croeso arbennig i Ynyr Parry ar sedd wag Penisa'r-waun. Yn enedigol o Ddeiniolen, ond bellach wedi ymgartrefu gyda'i wraig a merch fach ym Mro Eglwys. Pob dymuniad da iddo wrth ymgymryd â'r gwaith yma.

## Cofnodion Cyfarfod 6ed Fehefin 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

### **Materion o'r cofnodion**

**Mainc Clwt y Bont** - Derbyniwyd pris o £210 gan Fenter Fachwen. Penderfynwyd derbyn ac archebu'r fainc.

**Lôn Bethel i Lanrug** - Nodwyd fod y lôn wedi cael wyneb o darmac, a gobeithio bydd y llinellau gwyn yn cael eu peintio yn y dyfodol agos.

### **Gohebiaethau a Materion Eraill**

**Graffiti Tŷ Elidir** - Derbyniwyd llythyr yn datgan fod y graffiti a ddyluniwyd gan Andy Birch ac Ieuenctid Deiniolen, sydd ynghlwm a hanes yr ardal a Bro Llechi wedi cael ei ganiatáu ar ochor wâl Tŷ Elidir ym mhentref Deiniolen. Mae hyn mewn cytundeb a'r Cyngor Sir a Menter Fachwen, sydd ar hyn o bryd yn llogi'r adeilad. Ar ddiwedd y cyfnod llogi, efallai bydd rhaid fel rhan o gytundeb i ail beintio'r wâl yn ôl i'r gwreiddiol.

**Love Swim** - Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r digwyddiad yma. Yng nghanol pan demig, mae yn ofynnol fod Y cynghorau Cymuned yn rhoi eu barn ar gynnal pob digwyddiad o'r fath yn yr ardal. Gan fod yr achosion o covid dal i gynyddu ar ddechrau blwyddyn Newydd yr ysgolion, a gollwng cyfyngiadau, nid ydym fel Cyngor yn hapus i weld digwyddiad o'r fath yn mynd ymlaen. Bydd denu cannoedd o bobl yn ychwanegol ar ddigwyddiad yn benderfyniad o bosib fyddai yn rhoi pobl yn yr ardal mewn peryg o ehangu covid.

**Prosiect GwyrdNi** - Derbyniwyd llythyr gan Lowri Hedd Vaughan, sydd yn gwneud ymchwil o dirlun cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd yr ardal er mwyn cynrychiolaeth ar drafodaethau gyda'r cynulliad.

**70 Mlynedd Parc Cenedlaethol Eryri** - I ddatlu'r achlysur, maent yn cynnig pecyn o 70 o goed i'w plannu yn yr ardal i bob Cyngor Cymuned a thref yn Eryri. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod ysgolion yr ardal yn gweithio tuag at greu gerddi ayyb, penderfynwyd

gyrru i ofyn cysylltu â'r 4 ysgol gynradd yn yr ardal lle gallent gyd weithio i'w plannu.

**Racca, I Benisa'r-waun** - Derbyniwyd llythyr gan Y cynghorydd Sirol am gefnogaeth i ostwng yr hawl gyrru i lawr ar y lonydd yn dilyn i'r pentref. 50 milltir yr awry n gyfyngiad ar yr A4244, ond caniateir 60mya ar lonydd yn dilyn i fyny i'r pentref. Mae'r Cyngor yn croesawu hyn ac yn ei chefnogi ar y mater.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **C21/02670/18/DT -Garages adjoining The Nook Brynrefail**

Cais i ddymchwel modurdai presennol a chodi tŷ deulawr yn ei le. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0530/18/LL - Gwynfryn, Carreg y Garth, Rhiwlas**

Cais ar gyfer dymchwel adeilad stiwdio a chodi tŷ Newydd yn ei le. **Gwrthwynebiad ar sail gôr ddatblygu, mynediad anaddas ac nid yw'r safle yn addas chwaith**

#### **C21/0812/18/DT - Llechwedd, Deiniolen**

Cais ar gyfer codi estyniad unllaw'r. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0817/18/LL - Llys Gwynt Seion**

Adeiladu sied amaethyddol. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C20/1062/18/LL - Caeau Uchaf, Porth y Gogledd, Deiniolen**

Addasu adeilad allanol i uned wyliau. **Dim Gwrthwynebiad I'r adeilad, ond problem mynedfa i'r safle - peryglon yn sgil mwy o drafnidiaeth trwy stryd gul.**

#### **C21/0119/18/LL - Llwyn Celyn, Clwt y Bont**

Dymchwel y lolfa haul a sied bresennol a chodi deulawr yn ei lle. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0860/18/YA - Glamrhyd, Pentir**

Cais am ganiatâd, rhybudd o flaen llaw ar gyfer agor mynediad cerbydol i dir amaethyddol

### **Llwybrau**

**Giât Marchlyn** - Derbyniwyd llythyr sydd eisoes wedi ei yrru I First Hydro ynglyn a'r giât bresennol sydd yn hollol anaddas ar gyfer mynediad i'r cyhoedd i gerdded mewn ardal boblogaidd. Rydym yn cefnogi'r cais am giât Newydd addas ar gyfer pawb

**Llwybr 137** - Angen giât ochor arall i'r Llwybr ger Pandy.

Llwybr Corlan y Bont - Bydd contractwyr yn adnewyddu'r ffens ddiffygiol ger y Llwybr yn y dyfodol agos.

**Llwybr Rhif 6** - Uned Cefn Gwlad yn archwilio o bryd i'w gilydd, ar ddiogelwch y llechi sy'n disgyn i'r Llwybr oddi art ô y capel.

Llwybr Carreg y Gath, Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr a yrrwyd ymlaen i'r Cyngor ynglŷn â'r arall gyfeirio'r Llwybr yma gan breswylwyr Gwynfryn. Yn ei llythyr mae pryder nad oes arwyddion ynghyd a'r ffaith fod y mapiau yn anghywir. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol, ac mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn yn barod iddynt gymryd y camau i gywiro hyn.

### **Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl**

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Nid yw'r Cyngor Cymuned byth heb gael gwybodaeth bellach o'r Cyngor Sir. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu eto yn gofyn oes datblygiadau ynglŷn â'r llwybrau uchod.

### **Materion Ariannol**

Cyflwynwyd Mantolen 6 mis, ynghyd a rhestr gwariant a derbyniadau. Pawb yn fodlon.

**Banc** - Newidiadau I ffioedd y Banc - Nododd y clerch fod llythyr wedi ei dderbyn o'r banc yn datgan newidiadau o'r 1af Tachwedd ymlaen ynglŷn â'r bwriad o godi ffioedd. Y prif reswm dros hyn yw bod y banc yn ceisio gwthio busnesau a chymdeithasau o ddelio gyda thaliadau yn uniongyrchol ar y we. Gofynnwyd l'r clerch gysylltu gyda Unllais Cymru i gael arweiniad cyfreithiol ar ddefnyddio'r we i daliadau.

**Awdit** - Mae Awdit Cymru wedi cysylltu yn gofyn am fwy o fanylion, yn dilyn hyn am ambell esboniad. Dal heb dderbyn eu barn.

### **Meysydd Chwarae**

Yn dilyn llythyr ymhellach a mwy o fanylion gan yr adran Economi, bu trafodaeth bellach ar gynnwys y llythyr. Penderfynwyd, yn dilyn gwaith ac ymchwil trwyadl gan yr is-bwyllgor, iddynt gyfarfod cyn diwedd y mis, a chrynhoi eu hargymhellion a rhesymau at ei gilydd i gyfleu yng nghyfarfod mis Hydref o'r Cyngor.

Gan fod Y Cyfarfod wedi mynd ymlaen, gofynnodd Y Clerc os oedd posib dileu'r 2 bwynt nesaf ar yr agenda sef Fframwaith Adfywio Bro Peris a Hysbysfyrdau tan gyfarfod mis Hydref. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

### **O gwmpas y Bwrdd**

Dim

### **Cadarnhau Taliadau:**

**549 - £103.28**

**550 - £96.05**